
CORAU EGLWYS



F1 – DYDDIAD
YR EGLWYS YNG NGHYMRU
2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BTo

Tabl Cynnwys

<u>Corau Eglwys gyda Phlant</u>	2
<u>Cyflwyniad</u>	2
<u>Gweithwyr</u>	3
<u>Rolau a Chyfrifoldebau</u>	3
<u>Cyswllt Corfforol</u>	4
<u>Sgwrsio ac Ymddygiad</u>	4
<u>Rôl Fugeiliol Gwarchodwr</u>	5
<u>Ffoli neu Wirioni ar Rywun</u>	5
<u>Cyngherddau, teithiau, ymweliadau, a gweithgareddau eraill oddi ar y safle</u>	5
<u>Digwyddiadau cymdeithasol</u>	6
<u>Cyfarfodydd rhwng oedolion a phlant y tu allan i weithgareddau'r Côr</u>	6
<u>Cyfathrebu ag Aelodau'r Côr y tu allan i weithgareddau'r Côr</u>	6

Corau Eglwys gyda Phlant

Cod Ymarfer ar gyfer Staff a Gwirfoddolwyr

Cyflwyniad

Dylai staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant ac yn cysylltu â nhw yng nghyd-destun corau cadeirlan neu gorau eglwys eraill lle mae pobl ifanc yn bresennol fod yn ymwybodol bod diogelwch o'r pwys mwyaf i gadeirlan a phlwyf fel ei gilydd. Caiff y cod ymarfer hwn ei gyhoeddi i sicrhau bod yr arfer gorau yn cael ei ddilyn, a chamddealltwriaethau yn cael eu hosgoi. Mae'n amlwg er budd pob plentyn ac oedolyn, a'r gadeirlan ei hun, fod staff a gwirfoddolwyr yn dilyn y cod ymarfer hwn er mwyn iddynt hwy eu hunain, eu cydweithwyr a'r cantorion osgoi bod yn agored i berygl.

Pwrpas y cod ymarfer hwn yw ceisio gosod canllawiau ar gyfer y modd y dylai oedolion ryngweithio â phlant mewn adran gerdd er mwyn cadw'r berthynas yn iach ac yn ddiamwys ac osgoi sefyllfaoedd y gellid eu camddehongli neu eu camddefnyddio. At ddibenion y ddogfen hon 'plentyn' (neu 'gantor' fel y cyfeirir ato weithiau) yw rhywun o oedran ysgol, hyd yn oed os yw dros 18, sydd mewn côr cadeirlan neu gôr eglwys neu gonsort arall, neu sy'n bresennol yn y gadeirlan neu o'i chwmpas, neu gydag adran gerdd rywle arall.

Mae cynnwys y ddogfen hon yn berthnasol i holl staff a gwirfoddolwyr cadeirlan sy'n dod i gysylltiad â phlant mewn côr, gan gynnwys organyddion, clerigion, côr-warchodwyr, rhieni sy'n cynorthwyo, clercod lleyg ac oedolion sy'n aelodau o'r consort, waeth a oes ganddynt gyfrifoldeb uniongyrchol am y cantorion ai peidio.

Mae'n bosibl y bydd rhai o'r oedolion sy'n gysylltiedig â'r corau hefyd yn rhieni i rai o'r cantorion. Yn yr achos hwn, mae'n amlwg ei bod yn dderbyniol i'r oedolion hynny gyfeillachu â chantorion sy'n ffrindiau i'w plentyn mewn ffordd naturiol y tu allan i'r côr. Nid oes rhaid osgoi gadael i gantorion eraill ddod i chwarae gyda'u plant nhw, neu osgoi rhoi liff i gantorion eraill gyda'u plant nhw, etc. Rhaid defnyddio synnwyr cyffredin. Ond efallai y byddai'n ddoeth gwneud yn glir i rieni cantorion o'r fath mai trefniadau preifat rhwng rhieni yw'r rhain ac nad oes iddynt gysylltiad â swydd unigolyn yn y gadeirlan.

Gweithwyr

Dyma'r oedolion sydd mewn cyswllt rheolaidd â phlant yn y corau:

- y cyfarwyddwr cerdd
- yr organydd cynorthwyol
- clerigion y gadeirlan
- côr-warchodwyr
- clercod lleyg
- y cantorion hŷn yng nghonsort y gadeirlan neu mewn côr eglwys arall

Dylai oedolion ofalu bod eu perthynas â phlant y côr yn adlewyrchu oedran, rhywedd ac aeddfedrwydd y plant dan sylw. Mae'n arbennig o bwysig nad oes unrhyw agwedd ar ymddygiad, iaith, ac ymarweddiad, sut bynnag y'i cyflêir, yn rhoi lle i gamddealltwriaethau, yn arbennig felly wrth ddelio â bechgyn a merched yn eu glasoed neu hŷn.

Rolau a Chyfrifoldebau

Y cyfarwyddwr cerdd a'r organydd cynorthwyol yw'r rhai sy'n bennaf cyfrifol am les y cantorion. Cânt eu cyflogi gan y glwysgor ac mae'n ddyletswydd arnynt i ofalu am y cantorion. Pryd bynnag mae'r cantorion yn y gadeirlan, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, mae o leiaf un organydd/cyfarwyddwr yn bresennol ac mewn sefyllfa i fod yn bennaf cyfrifol am y cantorion. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys materion cerddorol a bugeiliol.

Mae tîm o gôr-warchodwyr gwirfoddol yn helpu i ofalu am y cantorion. Yn ystod eu cyfnod dyletswydd, nhw sy'n gyfrifol am faterion bugeiliol, ac am ddelio â bwyd a diod y cantorion, salwch, y gofrestr presenoldeb, cam-ymddwyn, a materion emosïynol. Maen nhw'n gyfrifol i'r cyfarwyddwr cerdd a dylent ddweud wrth y cyfarwyddwr neu'r organydd sy'n gyfrifol am unrhyw faterion arwyddocaol a gododd yn ystod eu dyletswyddau, a dylai hwnnw ddweud wrth y cyfarwyddwr cerdd cyn gynted ag y mae'n rhesymol bosibl.

Mae nifer o glercod lleyg hŷn mewn côr cadeirlan a chantorion mewn oed yn y consort. Nid yw'r cantorion mewn oed hyn yn uniongyrchol gyfrifol am ddisgyblu na bugeilio aelodau'r côr oni ddirprwywyd awdurdod iddynt am gyfnod penodol gan yr organydd/y cyfarwyddwr ar ddyletswydd, er y byddant, yn naturiol, yn cydweithio ag aelodau'r côr ac yn siarad â nhw yn ystod yr ymarferion a'r gwasanaeth. Mewn amgylchiadau eithriadol yn absenoldeb organydd/cyfarwyddwr neu warchodwyr, dylent ddelio ag unrhyw broblemau sy'n effeithio ar y cantorion iau, ond dylent bob amser ddweud wrth yr organydd/y cyfarwyddwr pa gamau a gymerwyd ganddynt cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl. Er nad ydynt yn gyfrifol am ddisgyblu'r cantorion, gall ambell enghraifft brin o siarsio neu geryddu fod yn dderbyniol weithiau (e.e., gofyn i gantor fod yn dawel neu i roi'r gorau i weithred beryglus neu anghymdeithasol) a gall fod yn fodd i gadarnhau cyfarwyddiadau a disgwyliadau cyfarwyddwr y côr a'r gwarchodwyr. Rhaid i unrhyw gerydd o'r fath fod yn dyner, yn anaml, ac ni ddylid ei anelu dro ar ôl tro at yr un cantor. Os credir bod angen cymryd camau pellach, dylid dweud hynny wrth y gwarchodwr neu gyfarwyddwr y côr, a fydd yn delio â'r mater mewn modd a

ystyriir yn briodol (mewn rhai achosion gwell anwybyddu'r ymddygiad am y tro). Anaml y bydd ymddygiad gwael yn cael ei adrodd wrth y rhieni yn hytrach na'i ddatrys gan staff/weithwyr y côr, a'r unig berson sydd â'r awdurdod i wneud hynny yw cyfarwyddwr y côr (naill ai'r cyfarwyddwr cerdd neu'r organydd cynorthwyol).

Cyswllt Corfforol

Dylai oedolion osgoi cyswllt corfforol â chantorion, ac eithrio dan yr amgylchiadau canlynol:

- Er mwyn rhwystro plentyn rhag niweidio neu anafu ei hun neu eraill neu ddifrodi eiddo. Rhaid gofalu mai dim ond rhwystro rhesymol a ddefnyddir.
- Cysuro plentyn sy'n ofidus. Dylai oedolion eraill fod yn ymwybodol o hyn ac, o ddewis, dylid cysuro yng ngŵydd oedolion eraill.
- Gweinyddu Cymorth Cyntaf.
- Cyd-gyfranogi yn heddwch y Cymun Bendigaid trwy ysgwyd llaw.

Dylai cyswllt corfforol fod yn ysgafn, yn briodol, heb fod yn estynedig ac ni ddylid ei ddefnyddio'n aml. Dylai oedolion ystyried oedran y plentyn dan sylw a gofalu osgoi cyswllt a allai gael ei gam-ddehongli. Os bydd cyswllt corfforol anarferol yn digwydd rhwng oedolyn a phlentyn, hyd yn oed yn ddamweiniol, mae'n bwysig fod yr oedolyn yn dweud wrth y cyfarwyddwr cerdd am y digwyddiad cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl, waeth faint o embaras y mae'n ei deimlo neu waeth pa mor ddibwys yw'r digwyddiad o bosibl.

Sgwrsio ac Ymddygiad

Dylai pob oedolyn osgoi gwneud sylwadau a allai gael eu hystyried yn rhai awgrymog neu ag ensyniadau rhywiol ym mhresenoldeb plant; ni ddylent chwaith hybu dadl neu drafodaeth ar bynciau o'r fath. Mae rhai eithriadau posibl prin i'r rheol hon. Mewn sefyllfaoedd pan fo pryder plentyn yn cael ei achosi gan bryderon corfforol neu emosiynol sy'n rhaid eu cydnabod er mwyn gallu helpu'r plentyn ar y pryd, hwyrach y bydd angen i warchodwr (neu dan amgylchiadau eithafol, yr organydd/cyfarwyddwr) wrando ar y plentyn yn esbonio problem bersonol ac ymateb yn briodol. Ni ddylent addo cadw'r gyfrinach mewn sefyllfaoedd o'r fath; rhaid iddynt sôn am y digwyddiad wrth y cyfarwyddwr cerdd, cydlynnydd diogelu'r gadeirlan a'r Swyddog Diogelu Taleithiol cyn gynted â phosibl.

Dylai oedolion sicrhau bod testun pob sgwrs gyda phlant yn addas, a chadw mewn cof oedran y plentyn. Dylent ddefnyddio'u crebwyll proffesiynol i sicrhau nad ydynt yn cael eu tynnu i mewn i feysydd trafod sy'n anaddas i'w dyletswyddau neu i'w perthynas â'r plentyn dan sylw.

Mae defnydd parhaus a niweidiol o sylwadau sarcastig, diraddiol, neu ansensitif am bobl ifanc yn ffurf o gam-drin a dylid ei osgoi.

Rôl Fugeiliol Gwarchodwr

Mae'n bosibl mai'r gwarchodwr fydd y person cyntaf y mae plentyn yn dweud ei gyfrinach wrtho/wrthi, yn arbennig os oes trafferthion gartref. Hwyrach y bydd angen mwy o ymgysylltiad cydweithredol â'r ysgol mewn achosion o'r fath. Mewn rhai amgylchiadau dylai'r gadeirlan, trwy gasglu gwybodaeth oddi wrth y gwarchodwr am y sefyllfa yng nghartref y plentyn, gydweithio â'r ysgol y mae'r plentyn yn ei mynychu a allai fod fel hwy yn ymwybodol o ofal neu anhapurwydd y plentyn. Er enghraifft, rhiant ddim yn dod i gasglu'r plentyn, y plentyn yn brif ofalwr rhiant, yn gorfod gwneud gwaith domestig yn y cartref – maen nhw oll yn effeithio ar les y plentyn. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, rhaid dangos gofal bugeiliol a gweithio gydag asiantau eraill, yn enwedig yr ysgol. Dylid gofyn am gyngor gan Swyddog Diogelu'r Dalaith os oes gan y gwarchodwr unrhyw amheuaeth ynglŷn ag unrhyw sefyllfa.

Ffoli neu Wirioni ar Rywun

Dylai oedolion fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai plant, yn enwedig plant yn y glasoed a hŷn, ffoli neu wirioni ar rywun. Dylent hysbysu cydweithiwr os gwelant ffoli neu wirioni o'r fath yn datblygu mewn cantor, a allai roi'r cydweithiwr hwnnw mewn perygl. Dylai oedolion barhau'n broffesiynol ac osgoi ychwanegu at broblemau'r plentyn trwy dynnu coes am y peth neu roi lle i'r fath sefyllfa. Os yw'r gweithiwr yn poeni bod sefyllfa o'r fath yn datblygu, dylai sôn amdani wrth y cyfarwyddwr cerdd. Pe bai cantor yn dechrau dangos ymddygiad corfforol neu lafar annerbyniol, dylai'r oedolyn dan sylw ddatgysylltu ei hun yn garedig ond cadarn ac esbonio nad yw agosrwydd o'r fath yn briodol nac yn dderbyniol. Fodd bynnag, dylai fod yn ofalus rhag ymateb mewn ffordd sy'n sarhau'r plentyn.

Os bydd cantor yn datblygu tuedd rheolaidd i aros ar ôl gyda gweithiwr fel pe bai'n helpu, neu i drafod pethau, dylai'r gweithiwr gymryd camau i osgoi'r sefyllfa rhag datblygu, naill ai drwy ofyn i gantor arall helpu gyda'r un dasg, gwahodd oedolyn neu gantor arall i'r ystafell, neu atal y cyfle rhag ailgodi.

Cyngherddau, teithiau, ymweliadau, a gweithgareddau eraill oddi ar y safle

Pan fo gweithgareddau'r côr yn cael eu cynnal i ffwrdd o'r gadeirlan ei hun, dylai'r oedolion lynu at yr un safonau ymddygiad ac ymarweddiad, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd pan nad ydynt ar ddyletswydd ond ym mhresenoldeb cantorion. Dylai oedolion ystyried sut y gallai cantorion ystyried eu hymddygiad a'u sgwrs a deall y gallent fod yn rôl-fodelau iddynt.

Dylai oedolion fod yn effro i ragweld problemau a all ddigwydd mewn lleoliadau anghyfarwydd. Pan fyddant ar daith, nid oes gan blant yr un cyswllt â'u rhieni a gall plant iau, yn arbennig, fod

yn teimlo'n hiraethus. Er ei fod yn briodol, yn y cyd-destun hwn, i oedolion gysuro plant, ni ddylent ganiatáu i berthynas amhriodol ddatblygu ar gyfrif angen neu anawsterau'r plentyn. Pan fo oedolion yn sylwi ar berygl yn hyn o beth mae'n bwysig eu bod yn dod ag oedolion priodol eraill i mewn i'r sefyllfa, fel nad yw'r plentyn dan sylw yn ddibynnol ar un oedolyn arbennig.

Digwyddiadau cymdeithasol

Mae nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol yng nghalendr unrhyw adran gerdd. Dylai oedolion fod yn ymwybodol y gall y berthynas fwy hamddenol, sydd o bosibl yn briodol o dro i dro yn y cyd-destunau hyn, gael eu camddehongli gan bobl ifanc. Mae'n bwysig pwysleisio na ddylai safonau ymddygiad nac ymarweddiad o gwmpas y cantorion fod yn wahanol i'r rhai a geir yng ngweithgareddau'r côr. Dylai oedolion fod yn ymwybodol o'r gofal arbennig sydd ei angen gyda chantorion hŷn, mwy aeddfed yn yr amgylchiadau hyn.

Cyfarfodydd rhwng oedolion a phlant y tu allan i weithgareddau'r Côr

Gall rhai fod o'r farn mai dim ond yn ystod gweithgareddau'r côr y dylai'r gadeirlan ymboeni ynglŷn â'r rhyngweithio rhwng cantorion ac oedolion. Fodd bynnag, pe bai sefyllfa yn ymwneud â phlentyn ac oedolyn yn datblygu y tu allan i derfynau gweithgareddau'r côr, byddai hyn wrth reswm yn effeithio ar y gadeirlan.

Fel arfer mae'n amhriodol i oedolyn drefnu i gwrdd â, cytuno i gwrdd â, neu ymestyn cyfarfyddiad damweiniol â chantor y tu allan i amgylchedd y côr. Os bydd oedolion yn rhagweld achos o'r fath yn datblygu, dylent drafod y peth gyda'r cyfarwyddwr cerdd. Ychydig o eithriadau sydd i'r rheol hon – un yw pan fo oedolyn yn cael ei gyflogi'n breifat gan riant i ddysgu plentyn i chwarae offeryn neu ddeall theori cerddoriaeth. Mae hefyd yn bosibl y gall fod angen i oedolyn ymwneud yn broffesiynol â phlentyn mewn cyd-destun gwahanol (e.e., fel aelod o staff mewn ysgol).

Mae'n briodol i aelodau staff gwrdd â phlant ym mhresenoldeb eu rhieni y tu allan i weithgareddau'r côr. Fodd bynnag, dylid cymell rhieni i sicrhau bod eu plentyn yn ymwybodol o'r berthynas briodol gyda'r oedolyn dan sylw i osgoi dryswch yn, ac oddi allan i, sefyllfa'r côr.

Cyfathrebu ag Aelodau'r Côr y tu allan i weithgareddau'r Côr

Gyda chydysniad y rhieni, gall cyfeiriadau e-bost cantorion hŷn gael eu hychwanegu at gronfa ddata'r côr, fel y gallant dderbyn yr un e-byst perthnasol i weithgareddau'r côr â'u rhieni. Gan y cyfarwyddwr cerdd yn unig y caiff y cyfeiriadau e-bost hyn eu cadw, ac ni fydd ef neu hi yn eu defnyddio i gysylltu â'r cantor yn unigol.

Ni ddylai staff, gwirfoddolwyr nac ymwelwyr gysylltu'n uniongyrchol â chantorion unigol y tu allan i weithgareddau'r côr. Mae pob cyfrwng cysylltu yn amhriodol, gan gynnwys ffonio, tecstio, e-bostio, llythyru, anfon parseli, ac unrhyw fathau eraill o gysylltu, electronig neu heb fod yn electronig. Dim ond yr organydd/cyfarwyddwyr a gwarchodwyr y côr ddylai fod â rhifau ffônau symudol cantorion, os ydynt wedi eu derbyn, a chaniateir eu defnyddio i bwrpasau swyddogol sy'n berthnasol i weithgareddau'r côr yn unig. Gall pwrpas swyddogol olygu sicrhau ymhle mae cantor hŷn ar daith, pan fo rhieni wedi rhoi caniatâd i'w plentyn fod heb ei oruchwylio am gyfnod penodol, neu pan fo angen trosglwyddo neges frys i gantor. Ni ddylai cysylltiadau o'r fath fyth gael eu hymestyn, ac ni ddylai un aelod o staff gysylltu'n rheolaidd â'r un cantor.

Yn achos cysylltiadau nad ydynt yn achosion brys, mae bob amser yn ddoeth cysylltu â rhieni'r plentyn (neu'r dirprwy rieni yn achos cantorion preswyl) a gofyn am gael siarad â'r cantor dan sylw. Ni ddylai'r math hwn o gysylltu ag unrhyw gantor penodol ddigwydd yn rheolaidd. Mae gan rieni hawl i wrthod cydsynio i oedolyn siarad â'u plant y tu allan i weithgareddau'r côr, ac i weithredu fel cyfryngwr pan fo'n bwysig i'r neges gyrraedd pen ei daith.

Pan fo angen i oedolyn gysylltu â chantor penodol fel y nodir uchod, dylent gysylltu â nhw ar rif ffôn cartref neu rif ffôn symudol eu rhieni yn hytrach nag ar rif ffôn symudol y cantor. Os digwydd i'r cantor, yn hytrach na rhiant, ateb y ffôn, dylai aelod o'r staff neu wirfoddolwr arfer ei ddoethineb i benderfynu a yw'n briodol siarad yn uniongyrchol â'r cantor neu ofyn yn gyntaf am gael siarad â'i rieni. Dylai pob sgwrs fod yn fyr ac i'r pwynt.

Dylai oedolion osgoi rhoi eu manylion cyswllt i unrhyw gantor a dylent osgoi derbyn ceisiadau i fod yn ffrind gan gantorion ar Facebook. Ond mae'n bosibl, fodd bynnag, i gantor ddod o hyd i fanylion cyswllt oedolyn a chysylltu ag ef neu hi trwy decstio, e-bostio neu ffonio. Os mai cysylltiad syml yn ymwneud â gweithgareddau'r côr yw hwn, mae'n iawn rhoi ateb byr i gwestiwn. Os bydd cyswllt o'r fath yn cael ei ailadrodd neu'n crwydro i feysydd nad oes iddynt berthynas uniongyrchol â'r côr, pa bynnag mor ddiniwed ydyw, byddai'n ddoeth rhoi gwybod i'r cyfarwyddwr cerdd am hyn.

(Yn seiliedig ar ddeunydd a ysgrifennwyd ar gyfer Cadeirlan Aberhonddu gan y Deon Paul Shackerley)